PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Plant yng Nghymru

# Ein Haddewid i Blant sydd â Phrofiad o Ofal

Ers dros 30 mlynedd, mae Plant yng Nghymru wedi bod yn hyrwyddo hawliau babanod, plant a phobl ifanc. Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae hawliau pob plentyn yn cael eu parchu, a lle mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei wireddu'n llawn. Fel y sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli buddiannau plant, rydym yn gweithio gydag aelodau a phartneriaid i gryfhau rhwydweithiau, rhannu gwybodaeth, a gwella polisi, arfer a gwasanaethau fel y gall pob plentyn gyrraedd ei botensial.

Rydym wedi ymgyrchu bob amser i sicrhau bod gan bob plentyn – yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl oherwydd eu cefndir neu eu hamgylchiadau – gyfleoedd cyfartal i ffynnu a chael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Rhan allweddol o'n cenhadaeth yw amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant sydd wedi cael profiad o ofal, gan gynnwys y rhai sydd mewn gofal ar hyn o bryd, a sicrhau bod eu lleisiau'n llywio ein blaenoriaethau a'n penderfyniadau.

## Ein Hymrwymiad

Bydd Plant yng Nghymru yn parhau i hyrwyddo hawliau babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal drwy ein rhaglenni a'n blaenoriaethau, wedi'u harwain gan ein Strategaeth Pum Mlynedd (2025–30). Fel elusen genedlaethol, rydym yn cefnogi'r nod cyffredin o fod yn "rhiant corfforaethol" i blant sydd wedi cael profiad o ofal a byddwn yn gwneud hyn drwy'r camau gweithredu canlynol:

## Rhoi llais plant sydd wedi cael profiad o ofal wrth wraidd ein gwaith cyfranogiad

1. Byddwn yn cynnwys plant sydd wedi cael profiad o ofal yn uniongyrchol wrth lunio polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt, drwy
   i. Cymru Ifanc, sy'n gwrando ar bobl ifanc ac yn eu grymuso i rannu eu barn gydag ysgogwyr penderfyniadau fel Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, drwy grwpiau cynghori, ymgynghoriadau, preswylfeydd a digwyddiadau.
   ii. Y Prosiect Paratoi, sy'n helpu plant sydd wedi cael profiad o ofal i ddeall eu hawliau a pharatoi ar gyfer byw'n annibynnol.
2. Byddwn yn creu cyfleoedd i gefnogi eu cyflogaeth yn y dyfodol, er enghraifft drwy gynnig rolau mewn prosiectau fel Paratoi.
3. Byddwn yn gweithio gydag aelodau a phartneriaid i sicrhau bod plant sydd wedi bod mewn gofal yn rhan o grwpiau cynghori ac ymgynghoriadau prosiectau, gan helpu i lunio'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen.

## Rhoi llais plant sydd wedi cael profiad o ofal wrth wraidd ein hyfforddiant

1. Byddwn yn dylunio ac yn cyflwyno hyfforddiant gyda hawliau ac anghenion plant sydd wedi cael profiad o ofal yn ganolog. Mae hyn yn cynnwys sesiynau wedi'u teilwra ar gyfer gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, a sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, gan godi ymwybyddiaeth o'r materion, y cyfreithiau a'r polisïau sy'n effeithio ar eu bywydau.
2. Byddwn yn sicrhau bod ein holl hyfforddiant yn ystyried amgylchiadau plant sydd wedi cael profiad o ofal, ni waeth beth fo'r pwnc.
3. Byddwn yn defnyddio straeon, dyfyniadau a phrofiadau go iawn gan blant sydd wedi cael profiad o ofal yn ein hyfforddiant i chwyddo eu lleisiau.

### Rhoi llais plant sydd wedi cael profiad o ofal wrth wraidd ein polisi a dylanwadu ar waith

1. 1. Byddwn yn sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar hawliau ac anghenion plant sydd wedi bod mewn gofal o bob oed, yn ogystal â'u blaenoriaethau ar gyfer newid, yn cael eu hadlewyrchu drwy gydol ein gwaith dylanwadu ar bolisi ac eiriolaeth gyda gwneuthurwyr penderfyniadau.
2. Byddwn yn cynnal presenoldeb gweithredol mewn fforymau a gweithgorau gwneud penderfyniadau a sefydlwyd i hyrwyddo hawliau plant sydd wedi bod mewn gofal. Mae hyn yn cynnwys hwyluso Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan, a'n cynrychiolaeth ar Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, Grŵp Cyflenwi Trawsnewid Gwasanaethau Plant a Grŵp Cyflenwi Cenedlaethol ar gyfer Addysg Plant mewn gofal.
3. Byddwn yn sicrhau bod ein cyhoeddiadau a'n hadnoddau yn ystyried hawliau ac anghenion plant sydd wedi bod mewn gofal ac yn cynnwys argymhellion penodol ar gyfer gwella canlyniadau. Er enghraifft, ein Maniffesto Hyrwyddwyr dros Blant a ryddhawyd cyn etholiad Senedd 2026.

### Rhoi llais plant sydd wedi cael profiad o ofal wrth wraidd ein cyfathrebu a'n gwybodaeth

1. Byddwn yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu sydd wedi'i anelu at blant sydd wedi bod mewn gofal yn glir, yn hawdd ei ddeall, ac yn rhydd o jargon.
2. Byddwn yn gwahodd cyfraniadau gan blant sydd wedi bod mewn gofal, a chan ein gwasanaethau aelodau sy'n eu cefnogi, i'w cynnwys yn ein cyhoeddiadau, fel ein cylchgrawn chwarterol Plant yng Nghymru.
3. Byddwn yn helpu plant sydd wedi bod mewn gofal i ddod o hyd i eiriolaeth, cyngor a chefnogaeth annibynnol trwy eu cyfeirio at ein gwasanaethau aelodau.

### Rhoi llais plant sydd wedi cael profiad o ofal wrth wraidd ein gwasanaeth IRM Cymru

1. Byddwn yn sicrhau bod Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) Cymru yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth adolygu penderfyniadau ynghylch cymeradwyo gofalwyr maeth neu fabwysiadwyr.